**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

COFNODION

CYFARFOD Y CABINET: 16 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Phil Bale (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sue Lent<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorydd Bob Derbyshire<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Ramesh Patel |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd David Walker<br>Y Cynghorydd Judith Woodman |
| Swyddogion: | Paul Orders, Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>David Marr, Swyddog Monitro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |

## 1. COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 19 MAI 2016

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai yn cael eu cymeradwyo.

## 2. DERBYN ADRODDIAD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CRAFFU AR Y CYD O'R ENW "ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL"

Derbyniodd y Cabinet adroddiad Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu Ar y Cyd o'r enw "Ardoll Seilwaith Cymunedol". Roedd 13 argymhelliad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:** bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i fod yn cael ei nodi bod yr ymateb o fewn adroddiad Ardoll Seilwaith Cymunedol Caerdydd.

## 3. SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2015-2016

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol 2015-16 ar Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn rhoi'r sail ffurfiol i alluogi'r Cyngor i fonitro sut mae'n cydymffurfio â'r Safonau.

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ba gamau mae'r Cyngor wedi eu cymryd i baratoi i gydymffurfio gyda'r Safonau newydd, ynghyd â rhoi gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Safonau.

**PENDERFYNWYD:** bod yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg (fel sydd wedi'i atodi fel Atodlen 2 yn yr adroddiad) yn cael ei gymeradwyo i'w ystyried gan y Cyngor cyn cael ei gyhoeddi yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

## 4. Y DIWEDDARAF AR Y RHAGLEN DATBLYGU SEFYDLIADOL

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynnydd Rhaglen Datblygu Sefydliadol (RhDS) y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer projectau a mentrau allweddol, sy'n hanfodol er mwyn gwneud y Cyngor yn fwy gwydn yn ariannol, ac er mwyn gwella sut mae'n darparu gwasanaethau yn y tymor canolig.

Mae'r adroddiad yn manylu ar sut fydd y RhDS yn cael ei ddiweddaru i sicrhau bod y cynigion ar sut i wella yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu gweithredu, a bod newidiadau sefydliadol o fewn y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn brydlon.

**PENDERFYNWYD:**

1) bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

2) bod y llwybr i'r dyfodol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Sefydliadol fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad yn cael ei gytuno arno;

3) bod y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, i fwrw ymlaen â gweithredu'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol;

4) y dylai'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol fod yn destun adolygiad annibynnol ar adeg sy'n briodol yn 2017; ac

5) y dylai adroddiad sy'n dadansoddi sut mae tirwedd y sector cyhoeddus yn newid, a safle'r Cyngor oddi fewn iddo, gael ei ddwyn gerbron cyfarfod dyfodol y Cabinet.

## 5. CWMNI MASNACHU'R AWDURDOD LLEOL – COMISIYNU A CHAFFAEL

***Ni fydd Atodiad 1A yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet gynigion i sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol i gynnig gwasanaethau caffael a masnachol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Mae'r Achos Busnes sydd wedi'i atodi i'r adroddiad yn manylu ar yr asesiad a wnaed o restr fer o dri dewis o fodel cyflenwi, dadansoddiad cost a budd, canlyniadau a manteision i'r Cyngor a gynlluniwyd ac asesiad risg, ac mae'n amlinellu'r strwythur cyfreithiol a'r trefniadau llywodraethu.

**PENDERFYNWYD:**

1. bod yr Achos Busnes ar Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol – Comisiynu a Chaffael, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo, a bod cytundeb ar sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol fel sy'n cael ei ddisgrifio'n gyffredinol yn yr adroddiad, i gynnig gwasanaethau caffael a masnachol i'r sector cyhoeddus a phreifat.

2. bod cytundeb ar benodi Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) yn gynrychiolydd Cyfranddalwyr ar ran y Cyngor

3. y dylid ei nodi a'i argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo, benodiad swyddogion yn Gyfarwyddwyr y Bwrdd fel sy'n cael ei nodi ym mharagraff 31 yr adroddiad.

4. y dylid dirprwyo Awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro'r Cyngor i:

    - Gytuno ar y dogfennau cyfansoddiadol a llywodraethu sydd eu hangen i sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol
    - Cytuno ar yr holl ddogfennau eraill sydd eu hangen ynglŷn â gweithgareddau Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol, a'i berthynas â'r Cyngor.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 2015-16

Derbyniodd y Cyngor adroddiad perfformiad Chwarter 4 (mis Ionawr i fis Mawrth) blwyddyn ariannol 2015/16. Nodwyd ymhob cyfarwyddiaeth fod 70% o Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol yn Wyrdd a bod 48% o'r Dangosyddion Perfformiad yn Wyrdd.

Dosbarthwyd taflen o welliannau a oedd yn dangos bod paragraff 8 yr adroddiad wedi'i newid i'r canlynol -

> *Mae 48% o Ddangosyddion Perfformiad yn Wyrdd, 15% yn Oren a 18% yn Goch, gyda* ***10% o'r canlyniadau ddim ar gael eto.*** *Roedd alldro terfynol Dangosyddion Perfformiad yn 2014-15 yn dangos bod 47.2% yn Wyrdd, 18.8% yn Oren a 14.8% yn Goch. Bydd cymhariaeth lawn yn cael ei wneud unwaith mae holl ganlyniadau 2015-16 ar gael.*

Mae tudalen gyntaf atodlen A hefyd wedi'i diweddaru i ddangos y ffigwr o 10%.

**PENDERFYNWYD:** y dylid nodi'r sefyllfa bresennol o ran perfformiad, sut mae cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau fel yn Chwarter 4, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n achos pryder.

## 7. ALLDRO 2015/16

Derbyniodd y Cabinet fanylion alldro'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â chyllideb y flwyddyn o ran refeniw a gwariant cyfalaf.

Cynghorwyd y Cabinet fod sefyllfa'r alldro refeniw yn dangos gweddill o £1.696 miliwn ar ôl ystyried cyfraniadau i ac o gronfeydd wrth gefn. Derbyniwyd hefyd grynodeb o Ddatganiad Rheoli'r Trysorlys am fuddsoddiadau a benthyca.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwyo'r adroddiad a’r camau a wnaed mewn perthynas â chyfrifon y Cyngor am 2015/16.

2. y dylid nodi y bydd yr adroddiad yn ffurfio Atodlen i adroddiad Datganiadau Ariannol y Cyngor a fydd yn cael ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016.

## 8. STRATEGAETH IECHYD A LLES GWEITHWYR

Derbyniodd y Cyngor y Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod ei gyflogeion yn allweddol yn y gwaith o gyflawni ei weledigaeth ar gyfer Caerdydd. Pan fo cyflogeion yn iach, wedi’u cymell ac â theimlad o les, mae profiadau ein trigolion yn gwella. Mae’r strategaeth yn cynnig fframwaith i helpu i wella iechyd a lles ein cyflogeion.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwyo’r Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr sydd wedi’i hatodi fel Atodlen 1 yn yr adroddiad.

2. y dylid nodi cynnwys y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Adolygu Polisi a Pherfformiad ar ôl y cyfarfod ar 7 Mehefin 2016, sydd wedi’i atodi fel Atodlen 2 yn yr adroddiad.

## 9 TREFNIADAU AIL-GAFFAEL / DROS DRO CONTRACT GWEITHWYR ASIANTAETH

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ynglŷn ag ail-gaffael contract gweithwyr asiantaeth y Cyngor trwy gystadleuaeth fach trwy Fframwaith Gweithiwr Asiantaeth Cymru Gyfan y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol. Gwerth y contract fydd £28miliwn. Heb weithredu cytundeb o’r fath ni allai’r Cyngor reoli'r ffordd y mae'n defnyddio Gweithwyr Asiantaeth yn effeithiol, sy'n golygu y byddai'r Cyngor yn gwario mwy.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwyo'r broses o gaffael gwasanaethau gweithwyr asiantaeth dan Gytundeb Fframwaith Asiantaeth Cymru Gyfan (GPC) ar gyfer Gwasanaeth a Reolir er mwyn Darparu Gweithwyr Asiantaeth.

2. y dylid dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn ymgynghoriad â’r Aelod Cabinet sy’n gyfrifol am Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i: wneud tendr bach dan y Cytundeb Fframwaith i ddethol Darparwr trwy ddefnyddio pwysiadau a meini prawf is-werthuso fframwaith perthnasol.

    - ymdrin â’r holl faterion atodol sy’n ymwneud â’r gystadleuaeth fach.

    - creu Cytundeb Defnyddiwr gyda’r Darparwr a ddewisir (y darparwr sydd o’r budd mwyaf yn economaidd) a gwneud archebion dan y Cytundeb Defnyddiwr.

- cymeradwyo estyn y cytundeb Defnyddiwr tan 7 Medi 2019 os bydd y Cyngor am barhau gyda'r gwasanaethau ar ôl mis Medi 2018.

2. y dylid cymeradwyo gwobr uniongyrchol dros dro bellach i'r darparwr asiantaeth a ddewisir trwy fframwaith Gweithiwr Asiantaeth Cymru Gyfan y fframwaith Caffael Cenedlaethol am 5 mis (1/7/16-30/11/16) i alluogi tendr y gystadleuaeth fach gyrraedd contract gwerth £4.2miliwn.

## 10 GWASANAETHAU SEILWAITH – MODELAU DARPARU AMGEN: Y CAMAU NESAF

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu canlyniadau dadansoddiad yr Achos Busnes Llawn ar y Cwmni dan Berchenogaeth Lwyr a Modelau Cyflenwi Amgen Mewnol wedi'u Haddasu ar gyfer gwasanaethau seilwaith, yn unol â'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD:**

1. bod cynnwys a chasgliadau'r adroddiad, gan gynnwys yr Achos Busnes Llawn wedi'i nodi yn Atodlen A yr adroddiad, yn cael eu nodi;

2. y dylid awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am Amgylchedd a Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i:

   a. sefydlu trefniadau llywodraethu a chefnogaeth briodol i weithredu'r strategaethau gwella gwasanaeth a nodir yn yr Achos Busnes Llawn, gan gynnwys sefydlu'r Bwrdd Gwella Masnacheiddio a Charlam i oruchwylio'r broses newid a gwella;

   b. ail-alinio'r gwasanaethau a chyllidebau perthnasol i'r model cyflenwi arfaethedig sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 45 i 49 yn yr adroddiad hwn; a

   c. dyrannu adnoddau staff yn fframwaith cyllidol 2016/17, gan gynnwys costau buddsoddi, i gefnogi'r rhaglenni newid sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

3. y dylid cymeradwyo'r Agenda Gwella Gwasanaeth (Gwasanaethau Seilwaith) - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a'r Undebau Masnach, fel sydd wedi'i nodi yn Atodlen D yn yr adroddiad.

## 11 GOLEUADAU STRYD LED AR GYFER Y RHWYDWAITH FFYRDD STRATEGOL

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ynglŷn â'r bwriad i drawsnewid 13,608 o oleuadau stryd wedi'u lleoli ar lwybrau priffordd strategol yn oleuadau stryd LED. Dyma gam pwysig yn y gwaith o gyflawni dyhead y Cyngor i ddod y ddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

Mae'r adroddiad yn amlinellu effeithiau cadarnhaol y gwaith hwn gan gynnwys llai o allyriadau CO2, arbedion yn y gyllideb a'r gallu i reoli ein rhwydwaith goleuadau o bell ac yn fwy effeithlon.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwyo'r broses gaffael i gynnig contract (Gwaith) er mwyn darparu goleuadau stryd LED fel sydd wedi'i nodi yng nghorff yr adroddiad;

2. y dylid cymeradwyo cyflwyno dogfennau tendro (gan gynnwys y gwerthusiad hollgyffrediol, yr is-feini prawf a'r GiD);

3. y dylid cymeradwyo cyflwyno hysbysiad Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd i ddechrau'r broses gaffael yn ffurfiol; ac

4. y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, yn amodol ar ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd i ymdrin â'r holl agweddau ar y broses gaffael a materion atodol hyd at a chan gynnwys dyfarnu'r contract. Os na fydd cost gyffredinol y contract yn mynd dros £5.5miliwn, caiff materion eu cyfeirio yn ôl at y Cabinet i'w hystyried.

**12 ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL CAERDYDD**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu'r bwriad i ymgynghori ar gyflwyno Amserlen Codi Tâl Drafft Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Mae ASC yn galluogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr i godi arian gan ddatblygwyr sy'n ymgymryd â phrojectau adeiladu newydd yn eu hardal.

**PENDERFYNWYD:**

1. bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi;

2. yr ymateb i Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu ar y Cyd; y dylid cytuno ar Ardoll Seilwaith Cymunedol (Mai 2016), fel sydd wedi'i nodi yn Atodlen 4 yn yr adroddiad hwn;

3. y dylid cytuno ar Amserlen Codi Tâl Drafft arfaethedig ASC at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd; ac

4. y bydd yr Amserlen Codi Tâl Drafft, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w chymeradwyo er mwyn ei chyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus Cyfnod 3.

Ar ddiwedd y cyfarfod, arweiniodd yr Arweinydd funud o dawelwch i fyfyrio am farwolaeth drasig Jo Cox AS